COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 28AIN O HYDREF 2024 YN Y FESTRI CAPEL PENTRE', LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Rhian Jones, Helen Jones, Ian Evans, Rhian Evans, Stephen Williams, Edmund Evans, Philip Williams ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Y Cynghorwyr Manon Davies a Bari Evans ynghyd a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 30ain o Fedi 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.
Materion yn codi wedi eu trafod isod.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Dim cyhoedd yn bresennol.

7. ARWYDDION PENTRE' PRION.
Mae'r Cadeirydd mewn cysylltiad gyda PR Signs ynglyn ar arwyddion.

8. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y chwarter yn diweddu Rhagfyr 2024.

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad am y flwyddyn 2024/25.

10. CYFLOG Y CLERC.
I'w thrafod ar ddiwedd y Cyngor ar ôl i'r Clerc adael yr ystafell pwyllgor.

11. CYLLID.
A. Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr ddiweddaraf o'r derbyniadau a thaliadau banc y Cyngor am y cyfnod thwng 1af Ebrill hyd 22ain o Hydref 2024.
B Taliadau yw cadarnhau:-
1: Ffi fisol banc HSBC £5.00.
2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor £40.00.
3. Catrin Roberts am gostau'r "Pumpkin Trail" £45.00.
4. Cynghorydd Philip Williams am gostau teithio Un Llais Cymru Cynhadledd Genedlaethol a'r 16 Hydref 2024 £78.40.
5. Y Lleng Prydeinig Brenhinol am "Torch Pabi" £50.00.
C. Penderfynwyd yr aelodau am y rhodd o'r Cyngor tuag at gost argraffydd newydd y Clerc.

12. MATERION CYNLLUNIO.
A. Cais Cynllunio: 23/2021/0387 - Trosi segur eglwys i ffurfio 2 annedd, tirlunio a gwaith cysylltiedig (yn rhannol ôl-weithredol) yn Ochr Brae, Prion. Sylwadau'r Cyngor eisoes wedi eu gyrru at Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.
B. Amodau i'r datblygiad cais cynllunio 23/2017/1218/PF - Ddatblygiad yn Brŷn Morfydd, Llanrhaeadr. Dal i ddisgwyl adroddiad diweddaraf Cyngor Sir Ddinbych.
C. Datblygiad answyddogol i'r Cais cynllunio 23/2021/0802 - Dymchwel adeiladau fferm segur bresennol, codi adeilad ar gyfer llety gwyliau, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig yn adeiladau allanol gyferbyn a Tan-y-Fron, Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn swyddogol trwy'r sustem adroddi' ddatblygiad answyddogol ar wefan y Cyngor Sir.
D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Brif Weithredwr a'r Pennaeth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar brinder ymateb gohebiaeth y Cyngor Cymuned i'r adroddiadau datblygiadau answyddogol.

13. SUL Y COFIO.
Mi fydd y Cynghorydd Philip Williams yn cyflwyno'r Torch Pabi dros y Cyngor Cymyned yn wasanaeth Sul y Cofio ar 10fed Tachwedd 2024 yn y Gofeb Rhyfel yn Llanrhaeadr.

14. GOHEBIAETH.
Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych bydd Co-Surveys Ltd yn gwneid arolwg ar Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr.

15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd yr adroddiad canlynol oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams:-
A: Hoffwn nodi fy mod yn falch bod gwaith draen wedi ei wneud ar waled y ffordd sy'n mynd lawr heibio Llyndir ar ôl i mi fynd â Mark Evans o'r adran Priffyrdd lawr yno dechrau'r flwyddyn i drafod y broblem.
B. Hefyd yn y cyfarfod diwethaf gofynnodd Ian am y storm drain tu allan i fynedfa'r Hen Vicarage. Mae o lawr gan yr adran Priffyrdd i'w gael ei gwblhau ond does ddim dyddiad eto wedi ei benodi i'r gwaith.

16. MATERION FFYRDD YN Y GYMUNED.
Derbyniwyd y rhestr ganlynol gan yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych:-
A: Unsuitable for large vehiclessignage on the Accar Las via Rhiwlas Isa'/Rhiwlas highway in Saron (LL16 4SN postcode).
B. When will the missing footway be stared between the new Cae Capel Housing Estate and Hafod-y-Bryn in Pentre' Llanrhaeadr on the A525.
C. Highway pothole requires repair by Yr Hen Ysgol in llan Llanrhaeadr.
D. Highway potholes requires repair by Rhiwlas Ucha' in Saron.
E. Highway grid needs levelling on the A525 highway between Yshol Bro Cinmeirch and Pentre' Llanrhaeadr.
F. Sweeper lorry required within the community including the highway from Pentre' Llanrhaeadr towards Mynydd Llech.
G. The give way signage requires attention at the big in Prion (highway junction towards Bryn Mulan in Prion).

17. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Rhian Evans mi fydd yn ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor ar ôl cyfarfod nesaf y Cyngor (Tachwedd 2024).

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 25AIN O DACHWEDD 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.